# Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

07.03.25

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
*Dear Parent / Guardian,*

Rydym wedi cael wythnos fendigedig yn ôl yn yr ysgol gyda phob diwrnod yn llawn o weithgareddau - Dathliadau Gŵyl Dewi dydd Llun, twrnameintiau pêl-droed a rygbi, cyngherddau canu ac wrth gwrs cafon ni ddathlu ein mwynhad o ddarllen ddoe ar Ddiwrnod y Llyfr! Roedd pawb yn edrych yn wych ac mae fy rhestr awgrymiadau darllen yn hirfaith wedi cael cyflwyniad i'r holl gymeriadau!
*We've had a wonderful week back in school following half term with every day filled to the brim with different activities. We celelbrated St David's Day on Monday, we've had successful football and rugby tournaments, singing concerts and of course, yesterday we celebrated our love for reading on World Book Day. Everyone looked amazing and my recommended book list is so long following my introduction to so many characters.*

## Dydd Sadwrn / Saturday:

**Pob lwc i bawb sydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch! Ymdrech a Lwydda!**
***Good Luck to all who are competing at the Eisteddfod Cylch on Saturday! Ymdrech a Lwydda, Effort leads to Success!***

## Dydd Llun / Monday, 10.3.25

Byddwn yn dathlu ein Eisteddfod Ysgol - gwisgwch eich gwisgoedd Cymreig! Diwrnod o hwyl gyda'r llysoedd yn cystadlu yn y gystadleuaeth ddawns, cyd-adrodd a chôr llys, cyn cadeirio bardd buddugol blwyddyn 6.
*We will be celebrating our school Eisteddfod - wear your Welsh costumes! A day full of fun with the teams competing in the reciting, a dance and a team choir before we chair the winning bard from year 6.*



**Bydd cennin pedr ar gael yn yr ysgol - £1 yr un er budd Marie Curie.**

***Daffodils can be brought from the school - £1 each towards Marie Curie.***

RYDYM WEDI DOD YN YMWYBODOL BOD E-BYST YSGOL WEDI DECHRAU MYND I'R FFOLDER 'SPAM' - rhai GroupEd ac athrawon. Plîs gwiriwch rhag ofn i chi golli rhywbeth a plîs rhannwch hwn trwy eich cyfryngau eraill!




WE HAVE BECOME AWARE THAT SCHOOL EMAILS HAVE STARTED TO GO INTO THE 'SPAM' FOLDER. Both Group Ed messages and teacher emails. Please check this and share on your personal communication forums.

## Clwb Canu / Singing Club

Aeth aelodau ein clwb canu i berfformio i'r gymuned ddwywaith yr wythnos hon. Yn gyntaf aethon nhw i berfformio eu hoff ganeuon Cymreig yng nghartref Cwrt Pritchard. Roedd y gynulleidfa yn fendigedig a mwynheuon nhw pob eiliad wrth gyd-ganu a dawnsio gyda'r plant!

Yna, ddydd Iau, aeth y disgyblion i berfformio yn nathliadau Gŵyl Ddewi Prifysgol Met Caerdydd. Diolch a llongyfarchiadau i bawb!

*The singing club went to perform to the community twice this week. They went to perfom their favourite Welsh songs at Pritchard Court Residential Home on Wednesday. The audience had a great time as they sang along and danced to the songs!*

*Then, on Thursday, they went to perform at Cardiff Met in Llandaf as part of their St David's Day celebrations. Diolch and well done to every member!*

## Pêl-droed Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale Football

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed am ennill rownd Caerdydd a'r Fro. Ymlaen a nhw nawr i'r rownd genedlaethol ddiwedd y mis. Amdani blantos!

*Congratulations to the football team for winning the Cardiff and Vale 5 a side tournament.  They will now go on to the National Round at the end of the month!*

## Twrnamaint Rygbi  /Rugby Tournament

Llongyfarchiadau i'r sgwad rygbi am gyrraedd y rownd gynderfynol yn nhwrnamaint Caerdydd a'r Fro Roedden nhw'n chwarae'n arbennig ond yn anffodus yn colli yn y rownd gynderfynol gyda chais euraidd.

*Congratulations to the rugby squas for reaching the semi-finals in the Cardiff and Vale Tournament. They played excellently but unfortunately lost in the semi finals with a golden try.*

## Clybiau / *Clubs*

Oherwydd Noson Rieni, dim ond clybiau Nos Iau fydd wythnos nesaf.

*Due to Parents Evening, we will only have clubs on the Thursday.*

| | **Dydd Iau *Thursday*** |
|---|---|
| ***3.30 - 4.30*** | ***Cyflwyniad Dramatig***<br>***3.30 - 5.00***<br>Aelodau yn unig / members only<br><br>***Code Club***<br>Aelodau yn unig / members only<br><br>***Bl4- 6***<br>Clwb aml-chwaraeon<br>Multi-sports club |

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

| **Mis Mawrth**<br>**Sialens Siarter Iaith y Teulu**<br>***Language Charter Family Target*** | **Mis MAwrth**<br>**Proc i'r Cof Diogelwch ar y We**<br>***Internet Safety Tip*** | **Mis Mawrth**<br>**Hawliau Plant**<br>***Children's Rights*** |
|---|---|---|
| Gwyliwch Stwnsh Sadwrn bob wythnos. | Cofiwch wirio cyfrifon Roblox y disgyblion i sicrhau nad oes | Eich hawl i ymlacio a chwarae. |

| | | |
|---|---|---|
| *Watch Stwnsh Sadwrn every week.* | ganddyn nhw fynediad at gemau anaddas (siiarad gyda dieithrod)<br><br>*Check your children's Roblox accounts to ensure that your children don't have access to inappropriate games (where they can speak to strangers).* | *Your right to rest and play* *.* |

| **Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:** |
|---|
| **Swyddogion Diogelu yr Ysgol / Safeguarding Designated Teachers**: Siwan Dafydd ac Aled Thomas<br>**Llywodraethwr Diogelu / Safeguarding Governor:** Emma Simpkins<br>Gwybodaeth Diogelu / Safeguarding Information |
| Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form |
| Ffurflen Gwyliau */ Holiday Form* |
| Gwaith cartref / Home Work bit.ly/gwaithcartrefPC |

| **DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY**<br>**Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser**<br>**Here are key dates and more information will be shared nearer the time** | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date** | **Digwyddiad / Event** |
| **08.03.25** | Eisteddfod Cylch / Eisteddfod 1st round |
| **10.03.25** | Eisteddfod Ysgol - gwisgwch eich gwisg Cymreig<br>School Eisteddfod - wearyou Welsh outfits |
| **10.03.25** | Cyflwyniad Maes y Fron i deuluoedd Bl4 6.30yh<br>Call of the Wild presentation to yr4 families 6.30pm |
| **11.03.25 + 12.03.25** | Nosweithiau Rhieni (wyneb i wyneb)<br>Parents Evening (face to face) |
| **13.03.25** | Eisteddfod Ddawns yr Urdd Dance Eisteddfod |
| **14.03.25** | Bl4: Trip Blannu Coed gyda Coed Caerdydd<br>Trip to plant some trees with Coed Caerdydd |
| **17.03.25 - 21.03.24** | **Bl5:** Gwersi Seiclo |

ysgolpencae@caerdydd.gov.uk ysgolpencae www.ysgolpencae.cymru 02920 563 851

| | |
|---|---|
| | Cycling Lessons |
| **19.03.25 2.50pm** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 3<br>Year 3 Class Assembly |
| **26.3.25** | Bl5+6: Gweithdy celf yn Amgueddfa Cymru<br>Art Workshop at the National Museum |
| **27.3.25** | Derbyn: Profion Clyw<br>Hearing tests |
| **27.3.25** | Bl3: Gweithdy Awdur, Gwyl Llen Caerdydd<br>Author Workshop, Cardiff Literature Festival |
| **01.04.25** | Eisteddfod Theatr - disgyblion Cyflwyniad Dramatig<br>Theatre Eisteddfod - Cyflwyniad Dramatig pupils |
| **02.04.25 2.50pm** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 1<br>Year 1 Class Assembly |
| **07.04.25** | **CRha / PTA:** Cystadleuaeth Bonedi Pasg / Easter Bonnet competition. |
| **8.4.25** | **Bl1 a 2:** Trip i'r Bae<br>Trip to the Bay |
| **09.04.25 - 11.04.25** | **Bl4:** Maes y Fron - taliadau ar agor ar ParentPay<br>Call of the Wild - payments open on ParentPay |
| **11.04.24** | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term<br>**14.4.25 - 25.4.25:** Gwyliau Pasg / Easter Holiday |
| **29.4.25** | Casgliad Dillad 'Rags to Riches' Clothes Collection |
| **02.05.25** | Bl6: Diwrnod Pontio - chwaraeon<br>Transition Day - sports |
| **14.05.25 2.50pm** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 2<br>Year 2 Class Assembly |
| **21.05.25 2.50pm** | Gwasanaeth Dosbarth Dosbarth Derbyn<br>Reception Class Assembly |
| **26.05.25 - 30.05.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **02.06.24 - 03.06.24** | **Bl3:** Pentre Ifan a Chastell Henllys<br>Pentre Ifan and Castell Henllys |

| | |
|---|---|
| **09.06.25 - 20.06.25** | **Bl3:** Gwersi Nofio<br>*Swimming Lessons* |
| **30.06.25** | **Bl6:** Diwrnod Pontio (heb staff Pencae)<br>Tranisition Day (without Pencae staff) |
| **03.07.25**<br>**1pm - 3.30pm** | Mabolgampau - NIAC, Cyncoed. Dewch i wylio a bydd angen casglu y disgyblion o Gyncoed.<br>*Sports Day - NIAC Cyncoed. Come and watch! You will have to pick the children up from Cyncoed.* |
| **18.07.25** | Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term<br>**2.30pm:** Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly |
| **21.07.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |